# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## Ebrill 2021 - Mawrth 2022

Menter Gorllewin Sir Gâr

Rhif Elusen: 1147184
Rhif Cwmni: 05981013

01239 712934
www.mgsg.cymru
ymholiad@mgsg.cymru

# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Pwy feddyliai y byddai'r cyfnod clo a chyfyngiadau covid wedi parhau am gyfnod mor hir gan effeithio ar bob agwedd ar fywyd ein cymunedau ac wrth gwrs ar waith y fenter. Nid oes angen i mi ddweud bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol ac anarferol. Er hyn mae'r fenter wedi llwyddo i fynd o nerth i nerth a wynebu'r heriau a godwyd yn y modd mwyaf positif posib gan barhau i ddarparu gwasanaeth a chymorth i'r ardal.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio ymhellach llwyddwyd i ail gydio yng ngweithgareddau wyneb yn wyneb gan barhau i ddarparu rhai o elfennau o'r gwaith yn ddigidol. A'i dyma fydd y ffordd newydd o weithio? Pwy a wŷr?

Fel pob blwyddyn arall mae ein dyled ni, yn ymddiriedolwyr, yn fawr i'r staff. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a'r ffordd y mae'n nhw wedi addasu ac ymateb i'r sefyllfa bresennol. Rydym fel ymddiriedolwyr yn ffodus iawn fod gennym dîm o staff mor ymroddgar. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl ymddiriedolwyr hefyd am roi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn sicrhau bod y Fenter yn gweithredu'n gywir ac yn effeithiol.



Wrth i ni edrych tuag at y dyfodol mae'n anodd iawn i unrhyw un ragweld beth fydd y sefyllfa yr adeg hon y flwyddyn nesaf. Un peth sy'n sicr, gyda chanlyniadau a holl ddata cychwynnol y Cyfrifiad yn cael eu cyflwyno yn 2022, mae gwaith a chyfrifoldeb MIC a'r Mentrau yn bwysicach nag erioed. Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r staff a'n gwirfoddolwyr am eu brwdfrydedd a gwaith caled dros y flwyddyn.

Rydym ni gyd ym Menter Gorllewin Sir Gâr yn ddiolchgar iawn i'n prif gyllidwyr sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr, Cronfa Loteri Fawr, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygiad Gwledig (CAEDG). Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth barhaus.

Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn mynd i fod yn un diddorol i ddweud y lleiaf gyda chanlyniadau'r cyfrifiad yn cael eu cyhoeddi cyn diwedd 2022. Ond un peth sydd yn sicr fe fydd y fenter yn parhau i ddatblygu ac arloesi wrth geisio cyrraedd ei nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yn ardal Menter Gorllewin Sir Gâr.

Arwel Lloyd



# PWYLLGOR RHEOLI

| | |
|---|---|
| Arwel Lloyd | Cadeirydd |
| Dafydd Davies | Trysorydd |
| Hazel Evans | |
| Ken Davies | |
| Dafydd Hughes | |
| Myfanwy Jones | |
| Luned Thomas | |
| Jean Lewis | |
| Lowri Lloyd | |

# STAFF

| | |
|---|---|
| Dewi Snelson | Prif Weithredwr |
| Denise Davies | Swyddog Gweinyddol |
| Gwawr Williams | Swyddog Cyfathrebu |
| Nia ap Tegwyn | Uwch Swyddog Iaith |
| Huw Lloyd | Swyddog Maes Digidol |
| Gruff Huws | Swyddog Maes Digidol |
| Gareth Davies | Uwch Swyddog Maes Digidol |
| Meinir Evans | Cydlynydd Profi |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu |
| Heledd Llwyd | Swyddog Helo Blod Lleol (tan Ebrill 22) |
| | Swyddog Busnes a Nawdd (ers Ebrill 22) |
| Ceris Thomas | Swyddog Datblygu (tan Ebrill 22) |
| Gwyneth Morris | Swyddog Datblygu |
| Alma Roberts | Swyddog Datblygu |
| Sioned Thomas | Swyddog Prosiect Profi (tan Ebrill 22) |
| Meinir Davies | Swyddog Prosiect Profi (tan Gorffennaf 22) |
| Alaw Rees | Swyddog Maes Digidol (tan Chwefror 22) |
| Alun Walters | Swyddog Maes Digidol (tan Awst 21) |
| Llew Evans | Swyddog Maes Digidol (tan Mehefin 22) |
| Cerys Pinkman | Swyddog Podlediadau (tan Hydref 22) |

# STAFF NEWYDD

| | |
|---|---|
| Luned Jones | Swyddog Datblygu (ers Gorffennaf 22) |
| Betsan Williams | Swyddog Datblygu (ers Awst 22) |
| Huw Evans | Swyddog Maes Digidol (ers Mehefin 22) |
| Roisin O'Toole | Swyddog Prosiect Profi (ers Mehefin 22) |
| Cerian Rees | Swyddog Prosiect Profi (tan Awst 22) |

# GWAITH CRAIDD

Ein prif meysydd targed yw Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc a Chymunedau Cymraeg. Gyda chefnogaeth ein cyllidwyr, rydym wedi gweithio trwy flwyddyn anodd â heriau penodol i drefnu amserlen lawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau amrywiol. Yn ystod y flwyddyn hon, rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau ar-lein, creu adnoddau digidol gwreiddiol yn ogystal â chyflwyno gweithgareddau wyneb yn wyneb yn araf deg yn unol â'r cyfyngiadau.



Wrth weithio gyda theuluoedd yn yr ardal, darparwyd arlwy amrywiol. Recordiwyd nifer fawr o straeon a'u rhannu'n rheolaidd er mwyn i rieni eistedd a gwrando ar stori gyda'u plant bach tra'n edrych gweld y llyfr ar y sgrin hefyd. Roedd y gyfres hon yn gyswllt pwysig i'n dilynwyr a'u defnyddiwyd yn helaeth. Fe wnaeth 5,500 o bobl gwylio ac ymgysylltu â'r straeon yn ystod y cyfnod ar draws ein platfformau digidol gwahanol. Wrth i'r cyfyngiadau lacio trefnwyd 7 digwyddiad torfol mewn parciau amrywiol ar hyd a lled ardal y Fenter. Roeddent yn boblogaidd iawn a chroesawyd 190 o deuluoedd i'r digwyddiadau yma sef 234 o oedolion a 337 o blant.

5,500 | 7 | 190 | 234 | 337

Rydym wedi gorfod gweithio mewn ffordd arloesol i gyrraedd plant a phobl ifanc eleni ac enghraifft o hyn yw ein sesiynau ymwybyddiaeth iaith. Cyflwynwyd nhw'n ddigidol a llwyddom i gyrraedd dros gant a hanner o fyfyrwyr Coleg Sir Gâr a 186 o ddisgyblion ysgol. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, croesawyd ni nol mewn i'r ysgolion i gynnal sesiynau gemau buarth a threfnodd y fenter sesiynau i 419 o ddisgyblion mewn 11 ysgol ar draws yr ardal.

Roedd y Fenter yn awyddus i weithio'n glos gyda'n cymunedau eleni a braf oedd trefnu clwb cinio i aelodau hŷn yr ardal. Cynhaliwyd cyfres o 3 yn ystod y flwyddyn a darparwyd prydiau cynnes i 90 unigolyn. Roedd y bobl yn mwynhau'r cyfle i gymdeithasu a dod nol at ei gilydd a'n gobaith yw trefnu mwy yn y dyfodol. Mae'r fenter yn gefnogol iawn i siaradwyr Cymraeg a rydym wedi darparu sesiynau niferus arlein a wyneb yn wyneb dros y flwyddyn a wedi croesawi dros 240 iddynt.

# CYNLLUN PROFI

Bwriad cynllun Profi yw datblygu sgiliau pobl ifanc, gan helpu pobl ifanc i adnabod eu sgiliau a'u cryfderau ac annog iddynt fanteisio ar gyfleoedd lleol yn cynnwys profiad gwaith, gwirfoddoli a swyddi rhan amser.




Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri rydym wedi addasu yn ystod blwyddyn heriol i bobl ifanc gan gefnogi 643 o bobl ifanc yn ystod blwyddyn â chyfnodau o ddysgu o bell. Rydym wedi trafod yn gyson gyda phobl ifanc, ysgolion a phartneriaid sut maent am dderbyn cymorth a mewnbwn cynllun Profi. Ar dderbyn adborth, rydym wedi addasu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gallu derbyn cyngor ar sut i wella eu sgiliau byd gwaith wrth ddysgu o bell. Rydym wedi parhau i fanteisio i ddatblygu sgiliau'r tîm gan fynychu nifer o sesiynau hyfforddi o bell, cwrdd â nifer o'n partneriaid ar lein yn ogystal â chyflwyno'r cynllun i rwydweithiau perthnasol.

Ers Hydref 2020, rydym wedi sicrhau cyllid ychwanegol drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae'r cyllid ychwanegol wedi ein caniatáu i ni ddatblygu elfennau newydd i'r cynllun megis datblygu cwis sgiliau interactif a chreu 6 ffilm fer. Y bwriad yw addysgu pobl ifanc am y cyfleoedd sydd ar gael o fewn nifer o sectorau a fydd yn gweld twf mewn swyddi yn y dyfodol o fewn ein cymunedau, gan annog pobl ifanc i aros neu symud yn ôl i'r ardal yn dilyn cyfnod yn y coleg neu brifysgol. Penodwyd Swyddog Digidol ychwanegol i'r tîm yn Hydref 2021 yn rhan o gynllun Kickstart.

Rdym yn gweithio ar greu gwefan i gynorthwyo pobl ifanc gyda bob cam o'r siwrne o fod yn ddisgybl i'r byd gwaith. Gan gynnwys cyngor bachog mewn fformat digidol ac apelgar ynghyd â 5 cwis sgiliau rhyngweithiol i gynorthwyo pobl ifanc i adnabod a datblygu eu sgiliau a'u cryfderau. Er mwyn darganfod pa fformat fyddai orau gan bobl ifanc ar gyfer y cwis a darganfod y ffordd orau i strwythuro gwefan rydym wedi cynnal trafodaethau gyda dros 300 o bobl ifanc am gynnwys addas ac apelgar ar gyfer y wefan. Dyma'r unig gwis sgiliau dwyieithog yr ydym yn ymwybodol ohono felly rydym yn falch iawn o allu ddatblygu'r adnodd arloesol hwn.

# GWAITH DIGIDOL

Yn ystod 2021-2022 parhaodd MGSG Digidol, sydd yn cael ei adnabod fel adran o Menter Gorllewin Sir Gâr, i weithredu cytundebau ar ran y Canolfannau Gwaith, i weithio gyda'r di-waith. Darparu gwasanaeth a chefnogeth dros y ffôn, fel y gwnarthpwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, bu'r drefn am y mwyafrif o'r flwyddyn, er, mi ail ddechrewyd darparu sesiynau wyneb i wyneb ym mis Mawrth 2022. Creu CVs a llythyron i gefnogi ceisiadau am swyddi bu'r prif alw o rhan y gefnogeth ddarparwyd.

Yn ystod y cyfnod dan sylw gweithredwyd cytundebau ar ran Canolfannau Gwaith yn ardaloedd Ceredigion, Sir Gâr, Sir Benfro, Abertawe, a Rhondda Cynon Taf. Gweithiwyd gyda dros 1,600 o unigolin a'u cyfeiriwyd gan y Canolfannau Gwaith unigol am gefnogaeth a chymorth gan MGSG Digidol yn ystod 2021-2022.

Parhaodd Cynllun Digidol Sir Gâr yn ystod 2021/22, prosiect a ariennir gan gronfa Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020. Nod y cynllun yw cynyddu gallu a medrusrwydd unigolion i ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth, a'u hannog i ddefnyddio systemau awtomataidd i gael mynediad i wasanaethau. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio creuwyd banc o adnoddau digidol i gynorthwyo pobl i ddefnyddio platfformau digidol amrywiol.  Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau grŵp arlein a wyneb yn wyneb yn unol â'r cyfyngiadau a sesiynau un i un digidol a dros y ffôn er mwyn cynyddu sgiliau digidol yr unigolion.



# HELO BLOD

Mae'r prosiect Helo Blod yn cynnig cefnogaeth a chymorth am ddim i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys cyfieithu am ddim, marchnata dwyieithog, cymorth gyda recriwtio ac unrhyw gefnogaeth arall ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg. Mae hwn yn brosiect cenedlaethol, ac swyddogion 'Helo Blod Lleol' yn gweithio o swyddfeydd y Mentrau Iaith ledled Cymru.

Mae'r swydd yn yr ardal hon wedi ei rhannu rhwng Menter Gorllewin Sir Gâr a Menter Sir Benfro. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn 2022 penderfynwyd gael gwared â'r elfen 'Lleol' i'r prosiect Helo Blod, felly bydd swydd y swyddog Helo Blod Lleol yn dod i ben. Yn ystod y flwyddyn olaf hon, llwyddwyd i weithio yn ddwys gyda 18 o fusnesau newydd yn ardal y Fenter er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Roedd yna bwyslais yn y misoedd olaf i gysylltu eto gyda'r busnesau yna o'r blynyddoedd cynt i gynnig unrhyw gymorth eto iddynt gyda'r Gymraeg cyn bod y prosiect yn dod i ben. Wrth edrych ar ystadegau Helo Blod/Cymraeg Byd Busnes yn genedlaethol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, gwelwn fod y prosiect wedi:

- cysylltu â 5,596 o fusnesau
- rhoi cefnogaeth bersonol i 995 o fusnesau
- trefnu 50 o ddigwyddiadau
- mynychu 336 o ddigwyddiadau
- mynychu 50 o fforymau strategol a rhanbarthol gwahanol

